Croeso i Gynllun Cyhoeddi Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Beth yw Cynllun Cyhoeddi?

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn gyrff annibynnol sy'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gyflawni eu dyletswyddau cynrychioliadol ac ariannol statudol. Mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd ag Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol, Cynghorau Iechyd Cymuned, Ymarferwyr Cyffredinol, Deintyddion, Fferyllwyr ac Optegwyr sy'n darparu gwasanaethau'r GIG, ddarparu Cynllun Cyhoeddi unigol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'r Cynllun Cyhoeddi hwn yn cynnig canllaw cyflawn i'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi fel mater o drefn gan Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan. Mae'n dangos sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi ac a oes unrhyw ffi yn daladwy. Byddwn yn adolygu'r Cynllun Cyhoeddi yn rheolaidd ac yn monitro'r broses o'i weithredu.

Mae'n bwysig i ni fod y Cynllun Cyhoeddi hwn yn diwallu eich anghenion ac rydym wedi'i ddylunio ar ffurf trywydd er mwyn i chi allu dod o hyd i wybodaeth am Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn hawdd. O dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (ceir dolen i'r Ddeddf yn Rhan Tri isod), mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan i fabwysiadu a chynnal Cynllun Cyhoeddi ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan. Diben y Ddeddf yw annog awdurdodau cyhoeddus (y mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn un ohonynt) i fod yn fwy agored.

Mae'r Cynllun Cyhoeddi wedi'i rannu'n dair rhan, sef:

RHAN UN: Cyflwyniad
RHAN DAU: Y Dosbarthau Gwybodaeth a ddelir gennym
RHAN TRI: Adnoddau a Chyhoeddiadau Defnyddiol

RHAN UN: CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) gan Senedd y DU yn 1974 fel cyrff annibynnol i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y gwasanaeth iechyd yn eu dosbarth.

Ers 1 Ebrill 2015, pan ddaeth Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2015 (OS 2015 Rhif 509) i rym, bu saith Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru, yn cwmpasu'r un ardaloedd â'r ardaloedd hynny a gwmpesir gan y saith Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'n ofynnol i bob CIC sefydlu Pwyllgorau Lleol, y mae eu ffiniau yn cyfateb i ardaloedd Awdurdod Lleol eu rhanbarth.

Mae'r CICau yn gweithredu fel cyrff gwarchod ar gyfer y GIG yng Nghymru.
Mae eu prif rolau fel a ganlyn:

- Monitro effeithiolrwydd gwaith cynllunio'r GIG
- Gwerthuso ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
- Sicrhau y caiff safbwyntiau cleifion ac aelodau o'r cyhoedd eu cynrychioli'n deg mewn unrhyw broses ar gyfer gwneud penderfyniadau pwysig
- Cynorthwyo a chefnogi cleifion a'r cyhoedd ag unrhyw gwynion yn erbyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ceir Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru hefyd. Prif rôl y Bwrdd yw rheoleiddio, monitro a sicrhau ansawdd yr holl waith a wneir gan y CICau ledled Cymru. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithredu fel y llais cenedlaethol i gleifion.

Mae CIC Aneurin Bevan yn sefydliad statudol annibynnol sy'n atebol i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Iechyd a

Gwasanaethau Cymdeithasol am gyflawni ei ddyletswyddau cynrychioliadol ac ariannol statudol.

Rheoli Gwybodaeth

Delir y wybodaeth a gyhoeddir drwy'r cynllun cyhoeddi hwn yn unol â'r Polisi Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Cadw a Gwaredu Cofnodion a ddatblygwyd gan Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol Cymru. Caiff gwybodaeth sy'n ofynnol at ddibenion busnes y Cyngor Iechyd Cymuned ei storio yn CIC Aneurin Bevan, Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân NP44 3AB. Caiff rhai cofnodion a darnau o wybodaeth eu storio yn Archifau'r Sir, Cwmbrân ar gyfer hen Gynghorau Iechyd Cymuned Caerffili, Gogledd Gwent a De Gwent hyd at 31 Mawrth 2000.

Yn ein Cynllun Cyhoeddi, ceir disgrifiadau o'r math o wybodaeth rydym yn bwriadu ei chyhoeddi – cyfeirir at y disgrifiadau hyn gan ddefnyddio'r pennawd 'Dosbarthau Gwybodaeth'. Weithiau, ni fyddwn yn gallu cyhoeddi'r holl wybodaeth a ddelir gan y Cyngor Iechyd Cymuned. Os felly, byddwn yn eich hysbysu pam. Ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth bersonol na sensitif a byddwn bob amser yn ystyried y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Byddwn hefyd yn eich hysbysu am y cyfyngiad amser ar y wybodaeth a gyhoeddir gennym ym mhob Dosbarth – os byddwch am weld gwybodaeth hŷn yn y Dosbarth hwnnw, cysylltwch â'r unigolyn a nodir yn y cynllun.

Yn ogystal â'r wybodaeth a gyhoeddir gennym, mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am gyrff eraill e.e. Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, y gallai fod hefyd ganddynt wybodaeth sy'n berthnasol i waith y Cynghorau Iechyd Cymuned.

Rydym yn ymrwymo i adolygu'r cynllun hwn yn rheolaidd gyda'r bwriad o ehangu amrywiaeth y dogfennau a gyhoeddir gennym fel mater o drefn.

Sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi?

- Gallwch ei darllen neu ei lawrlwytho drwy ein gwefan gan ddefnyddio'r cyfeiriad hwn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/901

- Gallwch ofyn am gopi caled gan:

  Miss Jemma McHale Prif Swyddog
  Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
  Cyfeiriad: Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB

  Ffôn: 01633 838516
  E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk
- Fel arall, mae'n bosibl yr hoffech drefnu apwyntiad i weld y wybodaeth sydd ei hangen arnoch drwy gysylltu â'r **unigolyn a nodir uchod**.

Os oes cyfyngiad o ran sut y gellir cyhoeddi gwybodaeth benodol, byddwn yn eich hysbysu.

Adborth

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, sylwadau neu gwynion am y broses o weithredu'r Cynllun Cyhoeddi, neu sut rydym wedi ymdrin â'ch cais am wybodaeth drwy'r Cynllun, cysylltwch â:

Miss Jemma McHale Prif Swyddog
Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cyfeiriad: Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Eich Hawliau i Weld Gwybodaeth

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

- Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cydnabod bod gan bawb yr hawl i wybod sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus fel Cynghorau Iechyd Cymuned eu trefnu a'u rhedeg, faint y maent yn ei gostio a sut y gallwch gwyno os bydd angen i chi wneud hynny. Mae gennych yr hawl i wybod pa dargedau a gaiff eu pennu, y safonau a ddisgwylir gan wasanaethau a'r canlyniadau a gyflawnir.

- O 1 Ionawr 2005, mae'n rhaid i bob Cyngor Iechyd Cymuned ymateb i geisiadau am y wybodaeth a ddelir ganddo a chaiff hawl i weld y wybodaeth honno ei chreu. Mae rhai esemptiadau yn berthnasol i'r hawliau i wneud cais am y wybodaeth hon a'i gweld, ac mae'n rhaid i'r Cyngor Iechyd Cymuned ystyried yr esemptiadau hyn cyn penderfynu pa wybodaeth y gellir ei chyhoeddi.

Y Cod Ymarfer ar fod yn Agored

- Ar hyn o bryd, yn ogystal â chyrchu'r wybodaeth a nodir yn y Cynllun Cyhoeddi hwn, gallwch wneud cais am wybodaeth am Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan o dan y Cod Ymarfer ar fod yn Agored yn y GIG a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1995. Mae copïau cael o'r ddogfen hon ar gael am ddim gan Adran GIG Cymru Llywodraeth Cymru. Weithiau, ni ellir darparu rhywfaint o'r wybodaeth neu unrhyw ran o'r wybodaeth ac os felly, byddwn yn esbonio'r rhesymau dros hyn yn ein hymateb.

Y Ddeddf Diogelu Data

- O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae'r hawl gennych i weld gwybodaeth bersonol a ddelir amdanoch, a gallwch gysylltu â:

Miss Jemma McHale Prif Swyddog

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cyfeiriad: Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Cynllun Iaith Gymraeg

- Cyn 31 Mai 2019, roedd gan y CIC Gynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. O 31 Mai 2019, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cymhwyso nifer o safonau at y CIC. Gellir gweld copi o'r safonau sy'n berthnasol i'r CIC ar ein gwefan ac ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yn www.comisiynyddygymraeg.cymru. Gellir darparu copi caled o'r safonau ar gais.

Y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2005 yn pennu'r safon ar gyfer rhyddhau gwybodaeth am yr amgylchedd rydym yn byw ac yn gweithio ynddo. Gellir gwneud cais am wybodaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd gan ddefnyddio'r rheoliadau hyn a'r Cod Ymarfer ar fod yn Agored yn y GIG.

RHAN DAU: DOSBARTHAU GWYBODAETH

Wrth fabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi hwn, rydym yn ymrwymedig i fod mor agored â phosibl ond weithiau, am resymau dilys, caiff rhai rhannau penodol o'r wybodaeth eu hatal. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn caniatáu i sefydliadau atal deunydd a gwmpesir gan ei hesemptiadau. Gall deunydd esempt gynnwys gwybodaeth sy'n nodi unigolion penodol a gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

Gellir trefnu'r wybodaeth a ddelir gennym yn gategorïau bras fel a ganlyn:

1. GIG Cymru a sut rydym yn ymwneud ag ef
2. Ein strwythur a sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau statudol

3. Adnoddau dynol
4. Ymarferion ymgynghori
5. Gwybodaeth ariannol a chyllid
6. Dogfennau corfforaethol
7. Gohebu â'r Wasg a Datganiadau i'r Cyfryngau
8. Cwynion
9. Gwybodaeth Amgylcheddol
10. Y Cynllun Cyhoeddi hwn

Diweddarwyd y wybodaeth yn y Cynllun Cyhoeddi hwn ddiwethaf ym mis Awst 2019

1 GIG CYMRU A SUT RYDYM YN YMWNEUD AG EF

Gwybodaeth am y ffordd y caiff Gwasanaethau Iechyd eu trefnu yng Nghymru a'n cydberthynas â nhw. Gwybodaeth am drefniadaeth Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru a'r rhan y mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn ei chwarae yn y strwythur hwn. Gwybodaeth am y gydberthynas rhwng Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac unrhyw gyrff eraill y mae'n ymwneud â nhw yn y DU, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol

Gwybodaeth am y ffordd y caiff Gwasanaethau Iechyd eu trefnu yng Nghymru a'n cydberthynas â nhw

Y GIG yng Nghymru

Ceir saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru â chyfrifoldeb daearyddol penodol, yn ogystal ag Ymddiriedolaethau Iechyd â rolau arbenigol penodol h.y. Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) hyn yn gyfrifol am gynllunio'r gwasanaethau iechyd sydd eu hangen ar bobl leol ac y maent am eu cael ac am gynllunio a thalu am wasanaethau ysbyty, meddygon teulu, deintyddion ac eraill i ddarparu'r

gwasanaethau hyn. Mae gan bob BILl Fwrdd sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn Aelodau Cyswllt o'r BILl yn eu hardal. Mae ganddynt yr hawl i leisio barn yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ond nid oes ganddynt yr hawl i bleidleisio ynddynt. Mae dyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) i ymgynghori â'r Cyngor/Cynghorau Iechyd Cymuned perthnasol ar gynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sylweddol i'r gwasanaeth iechyd yn ei ddosbarth, ac i roi gwybodaeth iddo/iddynt am y trefniadau ar gyfer cynllunio a gweithredu gwasanaethau iechyd yn ei ardal.

 Cydweithio er mwyn gwella iechyd yng Nghymru

Mae dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd Lleol a chynghorau lleol i gydweithio – mewn partneriaeth â sefydliadau lleol eraill – er mwyn llunio strategaethau i wella iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant y bobl sy'n byw yn eu hardal. Disgwylir hefyd i'r BILlau gydweithio'n agos â'u poblogaeth leol, gan ymgynghori ar newidiadau sylweddol a gwrando ar safbwyntiau lleol.

- ***Gwasanaethau Arbenigol***

Caiff tua thri chwarter cyllideb y GIG yng Nghymru ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd Lleol, ond mae rhai gwasanaethau arbenigol y mae'n well eu cynllunio ledled Cymru gyfan, gan gynnwys gwasanaethau ambiwlans brys, llawdriniaethau'r galon a rhai gwasanaethau i blant.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn gyfrifol am wasanaethau Arbenigol a Thrydyddol ("trydedd lefel") ar ran y Byrddau Iechyd yng Nghymru. Ni chaiff y gwasanaethau hyn eu darparu ym mhob ysbyty, ond mewn canolfannau rhanbarthol neu genedlaethol, a dim ond mewn un neu ddwy ganolfan ar gyfer y DU gyfan y caiff y rhai mwyaf arbenigol o'u plith eu darparu.

- ***Iechyd y Cyhoedd***

Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau gofal iechyd yn ei ranbarth. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymorth iechyd y cyhoedd arbenigol i bob bwrdd iechyd a'i Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd.

- ***Gwasanaethau Ambiwlans***

Caiff gwasanaethau ambiwlans ledled Cymru eu darparu gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Er mwyn monitro'r gwasanaeth hwn a dylanwadu ar y trefniadau darparu, caiff Cynghorau Iechyd Cymuned eu cynrychioli yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

- ***Y cysylltiadau rhwng BILlau a Chynghorau Iechyd Cymuned***

Mae'r tabl isod yn dangos y cysylltiadau rhwng Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Byrddau Iechyd Lleol.

+

CYNGOR IECHYD CYMUNED (CIC)	PENCADLYS Y BWRDD IECHYD LLEOL	Rhif Ffôn y BILl
CIC Bae Abertawe	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	01656 752752
CIC Aneurin Bevan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	01873 732732
CIC Gogledd Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	01248 384384
CIC Powys	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	01874 711661
CIC De Morgannwg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	02920 747747
CIC Cwm Taf Morgannwg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	01443 744800
CIC Hywel Dda	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	01267 235151

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y GIG yng Nghymru o www.wales.nhs.uk/cym

Gwybodaeth am drefniadaeth Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru a'r rhan y mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn ei chwarae yn y strwythur hwn

Mae saith Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru sy'n gweithio gan ddilyn yr un ffiniau â'u Byrddau Iechyd Lleol cyfatebol.

Mae maint a strwythur Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yn amrywio gan ddibynnu ar ei ardal ddaearyddol, maint y boblogaeth a llifoedd cleifion.

Gwirfoddolwyr lleyg yw holl aelodau'r CICau ac nid ydynt yn cael unrhyw gydnabyddiaeth ac eithrio eu treuliau. Weithiau, gall CICau hefyd gyfethol aelodaeth etholedig fel yr ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni gwaith y Cyngor. Fodd bynnag, ni all aelodau cyfetholedig bleidleisio mewn unrhyw gyfarfodydd nac yn unrhyw drafodion a gynhelir gan y Cyngor na'i bwyllgorau. Cefnogir gwaith pob CIC gan nifer bach o staff cyflogedig.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r Cynghorau Iechyd Cymuned ac yn dangos sut maent yn gysylltiedig â'r Awdurdodau Lleol yn eu hardal.

STRWYTHUR CYNGHORAU IECHYD CYMUNED CYMRU	
CIC Aneurin Bevan	I. Blaenau Gwent II. Caerffili III. Sir Fynwy IV. Casnewydd V. Tor-faen

CIC Gogledd Cymru	I. Ynys Môn II. Sir Ddinbych III. Conwy IV. Sir y Fflint V. Gwynedd VI. Wrecsam
CIC De Morgannwg	I. Caerdydd II. Bro Morgannwg
CIC Cwm Taf Morgannwg	I. Pen-y-bont ar Ogwr II. Merthyr III. Rhondda Cynon Taf
CIC Hywel Dda	I. Sir Gaerfyrddin II. Ceredigion III. Sir Benfro
CIC Powys	I. Powys
CIC Bae Abertawe	I. Castell-nedd Port Talbot II. Abertawe

a) Fframwaith Statudol

Sefydlwyd Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) gan Senedd y DU yn 1974 fel cyrff annibynnol i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y gwasanaeth iechyd yn eu dosbarth.

Ym mis Ionawr 2001, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei phenderfyniad i gadw'r CICau yng Nghymru ac aed ati i addrefnu'r 20 o Gynghorau Iechyd Cymuned i greu naw ffederasiwn.

Ym mis Ionawr 2010, yn dilyn cyfres o ymgyngoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod 2009, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylid ad-drefnu ymhellach. Ar 1 Ebrill 2010, diddymwyd 17 o Gynghorau Iechyd Cymuned a chrëwyd wyth CIC newydd gan ddilyn yr un ffiniau â'r Byrddau Iechyd Lleol. Yn dilyn argymhellion Adolygiad Longley a'r newid dilynol a wnaed

i ddeddfwriaeth, ar 1 Ebrill 2015, unodd y ddau Gyngor Iechyd Cymuned ym Mhowys (CIC Brycheiniog a Maesyfed a CIC Sir Drefaldwyn) i greu CIC Powys.

Nodir aelodaeth, trafodion a'r trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau Cynghorau Iechyd Cymuned mewn Offerynnau Statudol. Mae'r disgrifiad cryno isod yn seiliedig ar Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996 a 2004 (OS 1996 Rhif 640 ac OS 2004 Rhif 905).

Yn 2003, cyflwynwyd Gwasanaeth Eirioli Cwynion cenedlaethol yng Nghymru, wedi'i reoli gan y CICau.

O fis Ebrill 2009, unodd y Byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru ac ehangwyd rôl y Byrddau Iechyd Lleol i gynnwys gwaith yr Ymddiriedolaethau Iechyd. Er mwyn i'r CICau allu rhoi'r newidiadau ar waith, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr Offerynnau Statudol canlynol yng Nghymru yn 2010:-

- 2010 Rhif (W) Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cymru, Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010
- 2010 Rhif (W) Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cymru, Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010.

Gosododd Rheoliadau CIC 2015 (OS 2015 Rhif 509) fwy o bwyslais ar gyfrifoldeb y Bwrdd i roi cyngor i CICau mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau, yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau eirioli cwynion, craffu ar weithrediad y gwasanaeth iechyd, gan gynnwys archwilio safleoedd, ymgysylltu â'r boblogaeth leol a chynnwys adroddiadau i Weinidogion Cymru y gellir eu llunio o dan reoliad 27(7) a (9). Mae hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd bennu safonau mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r CIC a monitro a rheoli perfformiad Cynghorau er mwyn sicrhau y caiff y safonau a bennwyd eu cymhwyso'n gyson.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Fwrdd CICau Cymru a

Chynghorau Iechyd Cymuned o
www.bwrddcic.gig.cymru

PWERAU STATUDOL A SWYDDOGAETHAU CYNGHORAU IECHYD CYMUNED

Aelodaeth Cynghorau

Caiff aelodau eu penodi gan yr Awdurdodau Lleol perthnasol, gan Sefydliadau Gwirfoddol a gan Lywodraeth Cymru o blith ymgeiswyr sy'n ymateb i geisiadau cyhoeddus. Nodir cyfanswm yr aelodau i'w penodi i bob Cyngor gan y cyrff sy'n penodi yn Offeryn Statudol Cymru 2010 Rhif 288 (W.37), Atodlen 1.

Bydd aelodau yn treulio cyfnod o rhwng blwyddyn a phedair blynedd yn ymgymryd â'u rôl fel y dynodir adeg eu penodi gan y corff sy'n eu penodi.

Gellir ailbenodi aelod ar ddiwedd y cyfnod gwreiddiol yn ei rôl hyd at uchafswm cyfnod o wyth mlynedd.

Trafodion Cynghorau

Bydd yr Aelodau yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd (neu ddau Is-gadeirydd) o'u plith, a gallant benodi un Pwyllgor neu fwy i ymgymryd â rhai o'u swyddogaethau.

Yn ogystal, mae'n rhaid i aelodau pwyllgorau lleol benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o'u plith. Y swyddogion a benodir hefyd fydd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor Iechyd Cymuned.

Fodd bynnag, dylid nodi'r canlynol:-

- Ni ellir penodi Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor Iechyd Cymuned fel y'u penodwyd gan yr aelodau fel cadeirydd nac is-gadeirydd pwyllgor lleol.
- Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn aelodau o Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

Cefnogir gwaith pob Cyngor gan Brif Swyddog, ac mae'n ofynnol i bob Cyngor lunio Adroddiad Blynyddol ysgrifenedig ar ei hynt wrth gyflawni ei swyddogaethau, ac i ddosbarthu'r adroddiad hwnnw.

Cyflawni Swyddogaethau

- Mae'n rhaid i bob Cyngor benodi pwyllgorau (a elwir yn bwyllgorau lleol) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol berthnasol yn ei ddosbarth.

- Mae dyletswydd ar bob Cyngor i adolygu'r broses o weithredu'r Gwasanaeth Iechyd yn ei ddosbarth yn rheolaidd.
- Mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) perthnasol i ymgynghori â'r Cyngor/Cynghorau ar gynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sylweddol i'r gwasanaeth iechyd yn ei ddosbarth.
- Mae dyletswydd ar y BILl perthnasol i roi gwybodaeth i'r Cyngor am y trefniadau ar gyfer cynllunio a gweithredu gwasanaethau iechyd yn ei ardal.
- Gall Cyngor **gael mynediad i unrhyw safle sy'n darparu gofal y GIG** at ddiben canfod y profiad a gaiff cleifion.
- Mae dyletswydd ar bob BILl i drefnu o leiaf un cyfarfod y flwyddyn rhwng ei aelodau ac aelodau'r CIC.
- Mae'n rhaid i bob Cyngor, erbyn 1 Medi bob blwyddyn, gyflwyno Adroddiad Blynyddol ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am ei hynt wrth gyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod o 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn honno.

Gwybodaeth am y gydberthynas rhwng Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac unrhyw gyrff eraill y mae'n ymwneud â nhw yn y DU, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol

- Mae gan ardal Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan boblogaeth o tua 561k o drigolion.
- Cawn ein cynrychioli ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Drwy ein statws fel Aelod Cyswllt, mae gennym yr hawl i leisio barn, ond nid i bleidleisio.
- Rydym yn monitro trefniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd

lleol mewn perthynas â gwasanaethau sylfaenol, eilaidd, acíwt, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Rydym yn cydgysylltu'n rheolaidd â Byrddau Iechyd Lleol eraill ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i drigolion ardal Aneurin Bevan.
- Cawn ein cynrychioli ar Fwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Aneurin Bevan a grwpiau amlasiantaeth eraill sy'n annog sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.
- Rydym yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

Cyfeirir at ein cysylltiadau a'n gweithgareddau bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol, y gallwch gael gafael arno drwy'r Cynllun Cyhoeddi hwn.

2 EIN STRWYTHUR A SUT RYDYM YN CYFLAWNI EIN DYLETSWYDDAU STATUDOL

Cyfansoddiad Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, ei aelodaeth a sut mae'n gweithredu. Gwybodaeth am ein cyfarfodydd agored rheolaidd. Gwybodaeth am strategaethau a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, ymweliadau ac adolygiadau. Defnyddio'r Gwasanaeth Eirioli Cwynion

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Mae 60 o Aelodau:

- caiff 15 ohonynt eu penodi gan eu priod Awdurdod Lleol, chwech gan Lywodraeth Cymru (ar ôl cyfweld ag ymgeiswyr sy'n ymateb i hysbysebion) a thri gan y Sector Gwirfoddol.
- Gallwn hefyd benodi Aelodau Cyfetholedig.

- Cynhelir cyfarfodydd ar gyfer y Cyngor llawn bob deufis a gall y cyhoedd ddod iddynt.
- Cyhoeddir posteri am gyfarfodydd arfaethedig y Cyngor i'w harddangos yn lleol.

Strwythur Pwyllgorau

Mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i Bwyllgorau. Rhestrir y pwyllgorau isod. Fel arfer, byddant yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, a gall y cyhoedd ddod i'r cyfarfodydd.

Cyfarfod	Amlder	Ar agor i'r Cyhoedd
Y Pwyllgor Gweithredol	Bob mis	Dau bob blwyddyn
Y Pwyllgor Cynllunio	Bob deufis	Ydy
Y Pwyllgor Craffu	Bob deufis	Nac ydy
Y Pwyllgor Ymweld ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Bob deufis	Nac ydy
Pwyllgor Ardal Blaenau Gwent	Un bob blwyddyn	Ydy
Pwyllgor Ardal Caerffili	Un bob blwyddyn	Ydy
Pwyllgor Ardal Sir Fynwy	Un bob blwyddyn	Ydy
Pwyllgor Ardal Casnewydd	Un bob blwyddyn	Ydy
Pwyllgor Ardal Tor-faen	Un bob blwyddyn	Ydy

Sut rydym yn gweithredu

- Rydym yn arfer ein pwerau a'n dyletswyddau statudol er mwyn cynrychioli budd y cyhoedd yn y GIG ac er mwyn sicrhau bod cyrff y GIG yn atebol.
- Mae ein gwaith i fonitro gwasanaethau iechyd lleol yn cynnwys:
- Cynnal rhaglen o ymweliadau monitro ag ysbytai a lleoliadau eraill
- Mynychu cyfarfodydd lefel Bwrdd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Aneurin Bevan yn rheolaidd
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyswllt anffurfiol ag uwch-reolwyr y GIG
- Drwy gael ein cynrychioli ar amrywiaeth o bwyllgorau allweddol sy'n ymdrin ag agweddau fel Ansawdd a Diogelwch a Chyfranogiad Cleifion a'r Cyhoedd
- Sicrhau bod cynrychiolwyr o gyrff lleol y GIG yn bresennol yng nghyfarfodydd cyhoeddus y CIC
- Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus neu ddulliau ymgynghori eraill er mwyn cael gwybod barn cleifion a'r cyhoedd
- Rydym yn tynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff eraill at anghenion arbennig a phryderon ein trigolion
- Rydym yn ceisio gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sy'n ymwneud â'r GIG
- Rydym yn rhoi gwybodaeth a chyngor anfeddygol i'r cyhoedd
- Rydym yn cynnig cyngor a chymorth annibynnol am ddim i gleifion sy'n codi pryderon am y gwasanaeth iechyd
- Ar y lefel genedlaethol a rhanbarthol, rydym yn cyfrannu at waith nifer o Bwyllgorau a Rhwydweithiau Clinigol y GIG

Nodir rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn yn ein Hadroddiad Blynyddol, y gallwch gael gafael arno drwy'r Cynllun Cyhoeddi hwn.

Gwybodaeth am strategaethau a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau ac ymweliadau

Mae Cynllun Gweithredol blynyddol CIC Aneurin Bevan yn rhoi rhaglen o weithgareddau ymgysylltu a chraffu ar waith er mwyn cefnogi nifer o flaenoriaethau lleol.

Nodir rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn yn ein Cynllun Gweithredol.
Gellir cael gafael ar yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan CIC Aneurin Bevan drwy'r wefan.

Adolygiadau

Mae pwyllgor safonau a pherfformiad Bwrdd CICau Cymru yn gyfrifol am roi sicrwydd i'r bwrdd bod CICau yn gweithio'n unol â'r safonau cenedlaethol ar gyfer CICau yng Nghymru (neu ddangos eu bod yn anelu tuag at y safonau hynny).

Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, mae'r pwyllgor yn gofyn am sicrwydd bob blwyddyn bod y CICau yn cynnal hunanasesiadau rheolaidd a chadarn o'u perfformiad yn erbyn y safonau, a'u bod yn defnyddio'r hunanasesiadau hyn i ddatblygu eu ffyrdd o weithio.

Cyngor ac Eiriolaeth

Rydym yn darparu cyngor, cymorth a chefnogaeth annibynnol am ddim ar sawl gwahanol agwedd ar ofal iechyd ac yn gweithredu fel ffrind neu eiriolwr i gleifion mewn perthynas â chwynion am wasanaethau'r GIG.

Ceir gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn sy'n rhad ac am ddim isod:

> Gwasanaeth Eirioli Cwynion Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Cyfeiriad: Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Gwybodaeth o dan ein Cynllun Cyhoeddi

O dan y Cynllun Cyhoeddi hwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r cyhoedd am ein strwythur a sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol:

Dogfen	**Argaeledd**	**Ffynhonnell**
Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer CICau yng Nghymru	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled Gwefan
Y Safonau Cyhoeddi fel arweiniad	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled Gwefan

Egwyddorion ymweld y CIC	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Cynllun Gweithredol Blynyddol	Fersiwn bresennol	Copi caled Gwefan
Rhaglen Ymweliadau/Arolygon Monitro ac Ymgysylltu â Chleifion	Fersiwn bresennol	Copi caled Gwefan
Polisi cyfryngau cymdeithasol	Fersiwn bresennol	Copi caled
Canllawiau Adolygu Cymheiriaid	Fersiwn bresennol	Copi caled
Hunanasesiad CIC AB	Fersiwn bresennol	Copi caled
Aelodaeth a thelerau penodi	Fersiwn bresennol	Copi caled
Cod Ymddygiad i Aelodau	Fersiwn bresennol	Copi caled

Rheolau Sefydlog	Fersiwn bresennol	Copi caled
Fframwaith Strategol	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Taflen Gyhoeddusrwydd	Fersiwn bresennol	Copi caled Gwefan
Rhestr o gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau	Y flwyddyn bresennol	Gwefan Copi caled
Y Safonau Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Bwrdd a'r CIC a staff mewn cyfarfodydd	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Y Pwyllgor Gweithredol – Agendâu a Chofnodion	Y flwyddyn bresennol	Copi caled
Y Cyngor llawn - Agendâu a Chofnodion	Y flwyddyn bresennol	Copi caled Gwefan
Y Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau – Agendâu a Chofnodion	Y flwyddyn bresennol	Copi caled Gwefan
Adroddiad Blynyddol	Y fersiwn ddiweddaraf	Gwefan Copi caled
Adroddiadau Monitro Ymweliadau	Y flwyddyn bresennol	Copi caled Gwefan
Cylchlythyr Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan	Y flwyddyn bresennol	Copi caled Gwefan
Strwythur Staffio	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Disgrifiadau Swydd staff y CIC	Fersiwn bresennol	Copi caled
Copi o unrhyw ymateb i ymarferion ymgynghori lleol a/neu genedlaethol	Y flwyddyn bresennol	Copi caled
Cyfrifon Ariannol Blynyddol	Y fersiwn ddiweddaraf	Copi caled

Datganiadau i'r Wasg/Cyfryngau	Y flwyddyn bresennol	Copi caled
Pecyn Gwybodaeth am y Gwasanaeth Eirioli Cwynion a chontractau lleol	Fel sy'n ofynnol	Copi caled

Mae cofnodion cyfarfodydd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ar gael ar ffurf copi caled gan CIC Aneurin Bevan, Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB.

3 ADNODDAU DYNOL

Ein staff a materion sy'n ymwneud â'u recriwtio, eu cyflogi, eu datblygu a'u hyfforddi

Swyddfa'r CIC

Cefnogir gwaith pob Cyngor Iechyd Cymuned gan dîm bach o staff cyflogedig. Mae strwythur staffio Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan fel a ganlyn:

- Un Prif Swyddog
- Un Dirprwy Brif Swyddog
- Un Rheolwr Busnes
- Un Swyddog Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd, Monitro a Chraffu
- Tri Eiriolwr Cwynion (Dau ran-amser, un llawn-amser)
- Dau Swyddog Cymorth Eiriolaeth rhan-amser
- Un Swyddog Gweinyddol
- Dau Gynorthwyydd Gweinyddol (Un rhan-amser, un llawn-amser)

Gwasanaethau Craidd

Mae pob Cyngor Iechyd Cymuned yn cael cyngor a chymorth ar faterion personél a chyllid gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Lleol Powys. O dan gytundeb rhwng y BILl a Chynulliad Cymru, darperir y gwasanaethau cymorth hanfodol hyn ar sail asiantaeth. Mae'r cytundeb yn

cynnwys 'wal dân' er mwyn sicrhau na chaiff annibyniaeth Cynghorau Iechyd Cymuned na Bwrdd Iechyd Lleol Powys ei rhoi yn y fantol. Darperir y gwasanaethau gan staff BILl Powys sy'n gweithio yng Nghanolfan Gwasanaethau Busnes Gogledd Cymru.

Fel cyflogwr cyfreithiol staff y CIC, mae'r BILl yn darparu swyddogaethau cyflogwr mewn perthynas â chontractau, y gyflogres, polisïau iechyd a diogelwch ac ati. Fodd bynnag, dim ond â chytundeb ymlaen llaw gan y Swyddog Awdurdodedig a ddynodir gan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch recriwtio a phenodi staff.

Fel y cyfryw, caiff Cynghorau Iechyd Cymuned y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt, ond caiff cyfeiriad strategol a gweithgareddau pob Cyngor eu pennu gan y Cyngor unigol o fewn swyddogaethau craidd cydnabyddedig Cynghorau Iechyd Cymuned.

Gwybodaeth o dan ein Cynllun Cyhoeddi

O dan y Cynllun Cyhoeddi hwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r cyhoedd am adnoddau dynol:

Dogfen	**Argaeledd**	**Ffynhonnell**
Strwythur Staffio	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Disgrifiadau Swydd staff y CIC	Fersiwn bresennol	Copi caled

4 YMARFERION YMGYNGHORI

Manylion am y ffordd rydym yn ymgynghori â'r cyhoedd, ac unrhyw ymarferion ymgynghori cenedlaethol neu leol eraill y gallwn fod yn rhan ohonynt

Mae Bwrdd CICau Cymru yn gyfrifol am gydgysylltu ymateb cyfunol i ymarferion ymgynghori cenedlaethol. Yn ogystal, gall Cynghorau unigol benderfynu gwneud sylwadau o'u safbwynt penodol nhw.

Yn lleol, bydd trefniadau ar gyfer ymateb i ddogfennau ymgynghori cenedlaethol a lleol yn amrywio, gan ddibynnu ar y pwnc, yr amserlen, graddau'r pryderon lleol ac ai. Gall y broses ymgynghori gynnwys cynnal cyfarfodydd cyhoeddus neu grwpiau trafod, neu ofyn i Aelodau unigol â phrofiad perthnasol wneud sylwadau.

Gwybodaeth o dan ein Cynllun Cyhoeddi

O dan y Cynllun Cyhoeddi hwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r cyhoedd am unrhyw ymgyngoriadau y mae CIC Aneurin Bevan wedi cymryd rhan ynddynt:

Dogfen	**Argaeledd**	**Ffynhonnell**
Copi o unrhyw ymateb i ymarfer(ion) ymgynghori lleol a/neu genedlaethol	Y flwyddyn bresennol	Copi caled
Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Protocol Newid Gwasanaethau	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled

5 GWYBODAETH ARIANNOL A CHYLLID

O ble y daw ein harian a sut y caiff ei wario gennym

Mae pob CIC yn cael dyraniad blynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Prif Swyddog yn gyfrifol am reoli'r gyllideb yn unol â'r gweithdrefnau ariannol a chyfrifyddu a bennir gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys.

Nid yw CIC Aneurin Bevan yn cael cyllid o unrhyw ffynhonnell arall.

Gwybodaeth o dan ein Cynllun Cyhoeddi

O dan y Cynllun Cyhoeddi hwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ariannol ganlynol i'r cyhoedd:

Dogfen	Argaeledd	Ffynhonnell
Cyfrifon Ariannol Blynyddol	Y fersiwn ddiweddaraf	Copi caled

6 DOGFENNAU CORFFORAETHOL

Manylion am ddogfennau corfforaethol sy'n berthnasol i waith CIC Aneurin Bevan

Dogfen	Argaeledd	Ffynhonnell
Safonau'r Gymraeg	Y fersiwn ddiweddaraf	Copi caled Gwefan
Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Y fersiwn ddiweddaraf	Copi caled

7 GOHEBU Â'R WASG A DATGANIADAU I'R CYFRYNGAU

Manylion am ein cydberthnasau â'r Wasg – gwybodaeth am ddatganiadau i'r wasg

Mae CIC Aneurin Bevan yn rhoi gwybodaeth am gyfarfodydd arfaethedig i'r Cyngor i'r cyfryngau lleol yn rheolaidd, ac o bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd yn cyhoeddi datganiad i'r wasg/cyfryngau. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan y Prif Swyddog.

Gwybodaeth o dan ein Cynllun Cyhoeddi

O dan y Cynllun Cyhoeddi hwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r cyhoedd am ddatganiadau i'r wasg/cyfryngau:

Dogfen	Argaeledd	Ffynhonnell
Unrhyw ddatganiadau i'r Wasg/Cyfryngau	Y flwyddyn bresennol	Copi caled

8 CWYNION

Gwybodaeth am sut rydym yn ymdrin â chwynion am ein gwasanaethau a gwasanaethau'r Bwrdd/Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaeth(au)

Cwynion am y CIC

Mae Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru wedi datblygu polisi sy'n ymwneud â chwynion am berfformiad CIC unigol. Cysylltwch â Phrif Weithredwr Bwrdd CICau Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Cwynion am y GIG

Bydd ein Heiriolwyr Cwynion yn eich cynghori ynghylch cwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan y GIG.

Gwasanaeth Eirioli Cwynion Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cyfeiriad: Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Gwybodaeth o dan ein Cynllun Cyhoeddi

O dan y Cynllun Cyhoeddi hwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r cyhoedd am y gwasanaeth eirioli cwynion:

Dogfen	Argaeledd	Ffynhonnell

Taflen/gwybodaeth am y Gwasanaeth Eirioli Cwynion	Fersiwn bresennol	Copi caled Gwefan
Polisi Rheoli Achosion Eiriolaeth	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Polisi Cadw	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled
Gweithdrefn gwyno CICau – gwneud cwyn amdanom	Fe'i defnyddir ar hyn o bryd	Copi caled gwefan

9 GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

Gwybodaeth am unrhyw dir neu adeilad rydym yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio ac unrhyw gynlluniau sydd gennym ar ei gyfer. Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gamau yn ein herbyn neu sy'n ymwneud â ni mewn perthynas â Chamau Gorfodi Amgylcheddol neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Mae CIC Aneurin Bevan wedi'i leoli ar safle a gaiff ei rentu'n fasnachol ar lawr cyntaf Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB. Ceir mynediad i bobl anabl ar y llawr gwaelod a gall pobl anabl ddefnyddio lifft i gyrraedd y llawr cyntaf (sy'n addas ar gyfer cadair olwyn). Y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch.

10 Y CYNLLUN CYHOEDDI HWN

Yn y dosbarth hwn, byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau a wnawn i'r Cynllun Cyhoeddi hwn, y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer llunio ein polisïau rheoli gwybodaeth a phwynt cyfeirio ar gyfer unrhyw ymholiadau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau arfaethedig i gyhoeddiadau sydd eisoes ar gael a gwybodaeth am ein polisi mewn perthynas â chodi tâl am wybodaeth

Datblygu'r Cynllun

Mae Cynllun Cyhoeddi CIC Aneurin Bevan yn seiliedig ar y Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned. Lluniwyd Cynllun Enghreifftiol gyda chymorth Panel Cyfeirio Rhyddid Gwybodaeth GIG Cymru, ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2003. Cyflwynwyd y diwygiadau a nodir yn y ddogfen hon i'w cymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Rhestr o'r Newidiadau a Wnaed

Diwygiwyd y Cynllun Cyhoeddi hwn yn:-

- Rhagfyr 2004 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a roddwyd ar waith gan Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004 (Offeryn Statudol 2004 Rhif 905).
- Mawrth 2007 er mwyn cynnwys manylion y Cynllun Iaith Gymraeg a'r wybodaeth ddiweddaraf am CICau yng Nghymru.
- Mai 2010 er mwyn cynnwys manylion y trefniadau addrefnu diweddaraf.
- Rhagfyr 2011 er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran staffio a chysylltiadau cyfathrebu.
- Mai 2013 er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran staffio.
- Awst 2013 er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran staffio a ffynonellau gwybodaeth.
- Gorffennaf 2014 er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran staffio a ffynonellau gwybodaeth.
- Mehefin 2015 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a roddwyd ar waith gan Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2015 a phenodi'r Prif Weithredwr newydd.
- Awst 2019 er mwyn adlewyrchu'r trefniadau ad-drefnu diweddaraf a phenodi'r Prif Swyddog newydd ac er mwyn adlewyrchu Safonau'r Gymraeg

Pwynt Cyswllt

Y pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch rheoli gwybodaeth mewn perthynas â'r cynllun hwn yw:

Miss Jemma McHale Prif Swyddog

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cyfeiriad: Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Cost Gwybodaeth

Yn gyffredinol, dim ond am gopïau caled neu am gopïo deunydd i gyfryngau (e.e. CD ROM) y byddwn yn codi tâl arnoch. Mae peth gwybodaeth ar gael am ddim, ond mae'n bosibl y codir tâl am wybodaeth arall. Bydd y taliadau yn amrywio gan ddibynnu sut y caiff y wybodaeth ei rhyddhau. Mae'r taliadau fel a ganlyn:

a) Drwy wefan y Cyngor Cymuned – Am ddim, er y byddai'n rhaid i'r unigolyn dalu unrhyw daliadau sy'n gysylltiedig â Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd a chostau argraffu personol.
   - I'r rheini nad oes ganddynt fynediad i'r Rhyngrwyd, byddai allbrint unigol fel sydd ar y wefan ar gael drwy'r post o CIC Aneurin Bevan, Tŷ Rhaglan, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB neu drwy gyflwyno cais personol yn y cyfeiriad hwn.
   - Ni chodir unrhyw dâl am gopi caled ar ddisg/CD ROM, os byddwch yn darparu'r ddisg. Codir tâl o 5c fesul dalen am gopi caled ar bapur, hyd at 10 dalen, ac 1 geiniog fesul dalen wedi hynny.
   - Mae'n bosibl y codir tâl am ddod o hyd i'r wybodaeth, llungopïo, postio ac ati os ceir ceisiadau am allbrintiadau lluosog, neu am gopïau archif o ddogfennau nad ydynt yn hygyrch neu ar gael ar y we mwyach. Byddwn yn eich hysbysu am y gost a'r taliadau y bydd angen eu talu ymlaen llaw. Ni fyddwn yn darparu allbrintiadau o wefannau sefydliadau eraill.

b) Taflenni a llyfrynnau - am ddim ar wasanaethau rydym yn eu cynnig i'r cyhoedd.

c) Os bydd copïau papur wedi'u rhwymo ar gael, neu CD Rom, fideo neu gyfryngau eraill mewn rhai achosion, nodir manylion y taliadau ar ein rhestr cyhoeddiadau sydd ar gael o Swyddfa'r CIC yn y cyfeiriad a nodir uchod.

d) Darperir gwybodaeth am ddim dros yr e-bost oni nodir fel arall.

Caiff y taliadau eu hadolygu'n rheolaidd a byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau yn y Cynllun Cyhoeddi hwn.

Hawlfraint

Mae'r deunydd sydd ar gael drwy'r Cynllun Cyhoeddi hwn yn destun hawlfraint y Cyngor Iechyd Cymuned oni nodir fel arall. Oni nodir yn benodol i'r gwrthwyneb ar y deunydd, gellir ei atgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn ffordd gamarweiniol. Lle y caiff unrhyw rai o'r eitemau hawlfraint yn y Cynllun hwn eu hailgyhoeddi neu eu copïo i eraill, rhaid i chi nodi ffynhonnell y deunydd a chydnabod y statws hawlfraint. Nid yw caniatâd i atgynhyrchu deunydd yn berthnasol i unrhyw ddeunydd y ceir gafael arno drwy'r Cynllun Cyhoeddi sy'n destun hawlfraint trydydd partïon. Rhaid i chi gael awdurdod i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. I weld Nodiadau Cyfarwyddyd Llyfrfa EM ar amrywiaeth o faterion hawlfraint, ewch i wefan Llyfrfa EM:

www.hmso.gov.uk/guides.htm

neu cysylltwch ag:

HMSO Licensing Division
St Clements House
2-16 Colegate
Norwich

NR3 1BQ
Ffôn: 01603 621000
Ffacs: 01603 723000

RHAN TRI: ADNODDAU DEFNYDDIOL

ADNODDAU'R CYNGOR IECHYD CYMUNED

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan	https://aneurinbevanchc.nhs.wales/
Gwefannau Cynghorau Iechyd Cymuned unigol	https://bwrddcic.gig.cymru/
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru	https://bwrddcic.gig.cymru/

DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000

Gwefan y Comisiynydd Gwybodaeth	www.informationcommissioner.gov.uk
Yr Adran Materion Cyfansoddiadol	www.lcd.gov.uk/foi.foidpunit.htm
Gwefan Rhyddid Gwybodaeth y GIG	www.foi.nhs.uk
Cod Ymarfer ar fod yn Agored yn y GIG	www.doh.gov.uk/nhsexec/codemain.htm
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000	www.doh.gov.uk/freedomofinformation www.dcd.gov.uk/foiact.htm
Nodiadau Esboniadol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth	www.lcd.gov.uk/foiact.htm www.legislation.hmso.gov.uk/acts/en/2000en36.htm

Cod Ymarfer o dan Adran 45 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth	www.lcd.gov.uk/foi/dftcp00.htm

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Llywodraeth Cynulliad Cymru	www.llyw.cymru

Y GIG YNG NGHYMRU (CENEDLAETHOL)

Gwefan Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru	www.howis.wales.nhs.uk
Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol	www.nphs.wales.nhs.uk
Comisiwn Iechyd Cymru	www.llyw.cymru/comisiwniechyd Ffôn: 01656 753009
Y Ganolfan Gwasanaethau Busnes, BILl Powys	www.biapowys.cymru.nhs.uk
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	www.was-tr.wales.nhs.uk/default.aspx?lan=cy
Galw Iechyd Cymru	www.nhsdirect.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy

Y GIG YNG NGHYMRU (LLEOL)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Ysbyty Sant Cadog Lodge Road, Caerllion Casnewydd, NP18 3XQ Ffôn: 01633 436700 E-bost: abhb.enquiries@wales.nhs.uk Gwefan: www.bianeurinbevan.cymru.nhs.uk
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Swyddfa ranbarthol)	Rhanbarth y De-ddwyrain: Tŷ Vantage Point, Parc Busnes Vantage Point, Tŷ Coch Way, Cwmbrân NP44 7HF Ffôn: 01633 626262
	Gwefan: www.was-tr.wales.nhs.uk/default.aspx?lan=cy/